



Gwyddor Pysgodfeydd a Chadwraeth Fisheries & Conservation Science



DEFNYDD CYNALIADWY O ADNODDAU PYSGODFEYDD YNG NGHYMRU

Arweinir y prosiect Cronfa Pysgodfeydd Ewrop gan y diwydiant pysgota a Phrifysgol Bangor. Mae tua 90% o lynges Cymru yn defnyddio llongau gyda'r glannau sy'n dibynnu ar gyflenwad lleol iach o rywogaethau masnachol i gynnal eu bywoliaeth.

Mae'r prosiect hwn yn ceisio darparu llwyfan i wyddonwyr a physgotwyr i weithio gyda'i gilydd i gasglu data a thystiolaeth wyddonol i sicrhau dyfodol cynaliadwy a phroffidiol i ddiwydiant pysgota Cymru.

Ceir gwybodaeth ar wefan y prosiect i bysgotwyr ac mae'n darparu mwy o fanylion am amcanion yn ogystal ag adroddiadau, fideos, mapiau a gwybodaeth arall: <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk>



RYDYM EICH ANGEN **CHI** I FOD YN RHAN O'R YMCHWIL PYSGODFEYDD

Ar hyn o bryd ychydig o wybodaeth sydd gennym am gyfraniad pysgotwyr cewyll fel gweithgaredd hamdden i'r ddalfa gyffredinol o grancod, cimychiaid, corgimychiaid a'r cregyn moch mwyaf. Mae'r wybodaeth yn hanfodol i reoli'r pysgodfeydd hyn yn gynaliadwy. I'n galluogi i ddeall cyflwr y stoc rydym angen amcangyfrif cywir o beth sy'n cael ei lanio (ei ladd) a ble a phryd y cafodd ei ddal.

Gallwch gysylltu â ni drwy ffonio, e-bost neu drwy gofrestru ar ein gwefan. Mae nifer o brosiectau diddorol yn digwydd i'n helpu i gasglu gwybodaeth am feintiau, cymarebau rhyw, cyflenwad, dosbarthiad rhai ifanc ac ansawdd cynefin – ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth!



TAGIO CIMYCHIAID

Un astudiaeth gwirioneddol bwysig, ac un rydym angen eich cymorth gyda hi, yw ein hastudiaeth tagio. Byddwn yn mesur a thagio cimychiaid. Pan gânt eu dal yr eildro gallwn edrych ar eu tyfiant, cyfradd bwrw eu cramen, symudiad a chyflenwad. Os yw cimychiaid wedi'u tagio yn cael eu dal yr eildro a chwithau ddim yn rhoi gwybod am hyn, gall gael effaith negyddol ar ein amcangyfrif o gyflenwad, felly dowch yn rhan o'r cynllun. Os cewch un o'r cimychiaid wedi'i dagio mewn cawell cysylltwch â Natalie Hold i roi gwybod iddi er mwyn i ni gael mesuriadau a data arall.



Cysylltwch â Natalie Hold (n.hold@bangor.ac.uk) neu Jodie Haig (j.haig@bangor.ac.uk).
Ffôn: 01248 382850 Gwefan: fisheries-conservation.bangor.ac.uk

